# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 25AIN HYDREF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol – Zoom**

***i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679326**

**RhodriJones1@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 17 Hydref 2022)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| John Pughe | Aelod Lleol Morfa Tywyn |
| Anne Lloyd-Jones | Aelod Lleol Gorllewin Tywyn |
| Dewi Owen | Aelod Lleol Aberdyfi |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Josh Cooper | RNLI Aberdyfi |
| David Williams | Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi |
| Huw Evans | Aelod o Gymdeithas Psygodfeydd Bae Ceredigion |
| Nigel Willis | Aelod o Glwb Cychod Aberdyfi |
| Desmond George | Aelod o Glwb Hwylio Dyfi |
| Al Crisp | Outward Bound Trust Wales |
| Guy Shaw | Clwb Rhwyfo Aberdyfi |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Nia Jeffreys | Aelod Cabinet Datblygu’r Economi |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2022/23.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2022/23.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mawrth, 2022 fel rhai cywir.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 8 - 21

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

**8. ETHOL SYLWEDYDDION**

I ethol sylwedyddion i wasanaethu ar y canlynol:

a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

**9. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi ar 21 Mawrth, 2023.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERDYFI 29/03/2022

**YN BRESENNOL:**

**Cyngor Gwynedd:**

**Y Cynghorwyr:** Dewi Owen (Cadeirydd), Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd) a Mike Stevens.

**Aelodau Cyfetholedig:** Jim Lee (Outward Bound Wales), David Williams (Pwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi), Desmond George (Clwb Hwylio Dyfi), Guy Shaw (Clwb Rhwyfo Aberdyfi).

**Swyddogion:** Llyr B. Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Barry Davies (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Will Stockford (Harbwr feistr Aberdyfi) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth).

**Eraill a wahoddwyd:** Owain Griffith (Prif Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi a Chymuned), Cynghorydd Bob Tyrrell (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Al Crisp (Outward Bound Wales), Josh Cooper (RNLI Aberdyfi) ac Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

## 3. MATERION BRYS

Diweddariad ar brosiectau Wal y Cei a Pont Bryn Llestair (Picnic Island Bridge)

**Wal Cei Aberdyfi**

Croesawyd Owain Griffiths (Prif Beiriannydd Ymgynghoriaeth Gwynedd) i'r cyfarfod i roi diweddariad ar brosiect wal y cei. Adroddwyd, wedi derbyn tri chais am y gwaith bod yr Uned, wedi dilyn proses o asesu'r ceisiadau, yn y broses o gynnig y gwaith i gwmni sydd yn arbenigo fel Contractwr Morol o fewn Peirianneg Sifil o'r enw Teignmouth Maritime Services Ltd (TMS) o Ddyfnaint.

Derbyniwyd bod y broses wedi bod yn un hir, ond bellach bod llythyr gan Lywodraeth Cymru wedi ei dderbyn yn cadarnhau telerau'r grant ynghyd ag arian cyfatebol gan Gyngor Gwynedd i dalu am y gwaith. Amlygwyd mai'r cam nesaf fydd gosod rhaglen ddiwygiedig a thrafod cyfnod yr achos busnes yn llawn gyda'r cwmni. Nodwyd nad oedd dyddiad pendant ar gyfer dechrau'r gwaith, ond unwaith y daw rhaglen ddiwygiedig i law, byddai'r wybodaeth yn cael ei rhyddhau. Cadarnhawyd bod yr arian yn ddiogel a bod y cwmni eisoes wedi ymweld â'r safle ac wedi cyfarfod rhai rhandaliad. Ategwyd mai dymuniad YGC oedd sefydlu un grŵp i ymgysylltu gyda'r gymuned fydd yn cyfarfod yn rhithiol unwaith y mis i drafod materion yn ymwneud â'r prosiect - y bwriad yw cynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod mis Ebrill.

Yn dilyn y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau;

- Bod y newyddion yn bositif ac i'w groesawu
- Doeth fyddai cael Clerc Cyngor Cymuned Aberdyfi yn aelod o'r grŵp cymunedol
- Dylid llunio rhaglen waith a pharatoi ar gyfer cyfnod cyn gweithredu – posib trefnu storfeydd, symud offer a pharatoi mynediad – awgrym amser o ryw 6 wythnos
- Bydd angen ystyried effaith y gwaith ar yr economi leol - y gwaith yn debygol o gael ei weithredu yn ystod cyfnod prysur / gwyliau ysgol. Os yw'r arian yn ei le onid gwell fyddai oedi fel y bydd llai o darfu ac effaith ar y gymuned?
- Bod prisiau offer, dur, tanwydd ac adnoddau yn codi
- Bydd loriau trwm yn cario dur yn amharu ar symudiadau yn y dref – angen paratoi ar gyfer hyn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag oedi'r gwaith, ystyriwyd mai gwell fyddai gweithredu mor fuan â phosib gan y byddai dechrau ar y gwaith yn ystod misoedd yr Hydref yn agored i risgiau tywydd garw a chynnydd mewn costau adnoddau. Ategwyd bod pryderon eisoes yn bodoli ynglŷn â phryniant offer (sheet piles) ar gyfer creu sylfaen - dyma'r mater fydd yn pennu dechrau'r gwaith. Sicrhawyd bod y pryderon yn cael eu hystyried, ond doeth fyddai parhau ac ymdrin ag unrhyw faterion wrth iddynt godi.

**Pont Bryn Llestair (Picnic Island Bridge)**

Amlygodd Mr Barry Davies (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), er yr oediad, bod bwriad cwblhau'r gwaith yn 2022. Nodwyd bod y gwaith yn cael ei ariannu drwy gyfraniadau gan Cyngor Gwyendd, Outward Bound Wales, FLAG a Network Rail, ond bellach bod costau dur wedi cynnydd yn sylweddol ac felly y gyllideb yn brin o ryw £30k. Awgrymwyd cynnal trafodaethau pellach gyda'r partneriaid i geisio modd o gwrdd â'r bwlch ariannol. Nododd y Cadeirydd, bod y cyfryngau yn awyddus i wneud rhaglen ar y gwaith oherwydd bod diddordeb a brwdfrydedd yn y gymuned leol i gwblhau'r gwaith.

Diolchwyd i'r swyddogion am y diweddariadau

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar Dachwedd 2il 2021, fel rhai cywir.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Cyflwynwyd yr adroddiadau isod, a gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig sylwadau am eu cynnwys a gofyn cwestiynau.

**a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno i'r pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben Mawrth 2022.**

Yn absenoldeb yr Uwch Swyddog Harbyrau nododd Rheolwr Gwasanaeth Morwrol mai braf oedd cyhoeddi blwyddyn lwyddiannus gyda chynnydd yn nifer ymwelwyr a chwsmeriaid yn adlewyrchu llacio graddol cyfyngiadau covid a rhwystrau teithio tramor.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

**Angorfeydd a chofrestru cychod**

Adroddwyd y byddai'r gwasanaeth cofrestru a thalu ar lein yn agor i gwsmeriaid gofrestru eu llestr drwy wefan y Cyngor ar y 31ain o Fawrth 2022. Adroddwyd bod y drefn a gyflwynwyd Mawrth 2021 wedi bod yn llwyddiannus iawn a gwelwyd am y tro cyntaf restr aros am angorfeydd yn Harbwr Pwllheli.

**Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd**

Nodwyd bod y Gwasanaeth yn adolygu'r Côd Diogelwch Morol yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda'r safonau diogelwch yn harbyrau Gwynedd - bydd archwiliad allanol o'r côd yn cael ei gynnal gan unigolyn dynodedig. Ategwyd bod datganiad cydymffurfiaeth wedi ei arwyddo ac wedi ei gyflwyno i'r Asiantaeth Gwylwyr y Glannau. Amlygwyd pryderon difrifol ynglŷn â chyflwr y cei yn Aberdyfi (dim o ran ei strwythur ond y risg uchel i ddefnyddwyr eraill). Er bod gwybodaeth ac arwyddion yn ymddangos ar y cei yn amlygu risgiau a phryderon i ddiogelwch y cyhoedd, rhaid gwneud mwy ac mae yn anorfod bod yr Uned Morwrol yn gweithredu ar frys i sicrhau diogelwch y safle. Nodwyd bod y risg o beidio clirio / cadw offer pysgotwyr wedi ei gyfarch drwy greu lle cadw offer yn y compownd a derbyniwyd bod angen sicrhau cydweithrediad gan y pysgotwyr i flaenoriaethu diogelwch y cyhoedd. Ategwyd, pan fydd y gwaith clirio yn dechrau ar gyfer wal y cei, bydd yr offer yn cael ei symud yn barhaol i'r compownd.

Anogwyd yr Aelodau i gyflwyno sylwadau rheolaidd ar addasrwydd y Côd Diogelwch Morol

**Materion Staffio**

Canmolwyd yr holl staff (harbwr a thraeth) am eu gwasanaeth drwy gydol y pandemig i sicrhau diogelwch yr harbwr a'r traeth gan gydymffurfio yn llawn gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod 2 swydd barhaol yn Harbwr Aberdyfi gyda bwriad o gyflogi 2 swydd dymhorol yno a 3 yn Nhywyn. Ategwyd, bod ymateb i'r swyddi wedi bod yn siomedig iawn ond braf oedd cael adrodd bod Mr George Watson yn dychwelyd - un a phrofiad yn y maes, yn arweinydd tîm cryf ac yn gyfathrebwr da.

**Materion Ariannol**

Amlygwyd y tebygolrwydd y byddai ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd a ffioedd lansio cychod pŵer a chychod personol am 2022/23, yn codi yn unol â chyfradd chwyddiant.

Diolchwyd am yr adroddiad. Braf oedd adrodd bod y sefyllfa ariannol yn bositif ac er mai bychan yw'r incwm, bod cyfraniad yr Harbwr a thraeth Aberdyfi yn werthfawr i'r economi leol.

**(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr yn crynhoi'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a Mawrth 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.**

Diolchodd yr Harbwr feistr am gefnogaeth yr Uned Forwrol ac am yr holl negeseuon a dderbyniodd ef a'i deulu yn ystod gwaeledd ei wraig.

Nodwyd bod dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol sy'n ymwneud â'r marciau mordwyo yn y sianel - y gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad gyda chontractwr lleol i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Adroddwyd bod Ymddiriedolaeth yr Outward Bound wedi cynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau ar yr afon a bod gweithgareddau pysgota masnachol wedi parhau dros fisoedd y gaeaf. Nodwyd bod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau wedi bod yn weithredol ym mis Mawrth gyda thîm yn cynnal archwiliadau diogelwch ar hap ar gychod pysgota masnachol.

Cyfeiriwyd at archwiliad dŵr isel a gynhaliwyd 03/03/22 yn ardal Cliffside wrth hen lithrfa'r Bad Achub. Nodwyd y byddai swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa cyn i'r contractwr angorfeydd ddechrau ar ei waith.

Adroddwyd y byddai'r gwaith cynnal a chadw yn parhau drwy'r misoedd nesaf mewn paratoadau ar gyfer gwaith wal y cei a thymor prysur o ymwelwyr a digwyddiadau.

Diolchwyd am yr adroddiad. Diolchwyd i Wil Stockford (Harbwr feistr) ac Oli Simmons (Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi) am y gwaith clirio oedd wedi ei wneud o gwmpas yr Harbwr ac am wynebu heriau o bob math gan ymwelwyr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â threfniadau symud tywod a chais i symud tywod sydd yn casglu yn y maes parcio cyn gwyliau'r Pasg, nodwyd bod ardal y promenâd ynghyd ag ardal y Bad Achub wedi ei glirio a bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Uned Trafnidiaeth a YGC am gynnal y llithrfa. Ategwyd bod cyfrifoldebau'r Uned Forwrol ynglŷn â gwaith rheolaeth yr Harbwr yn cael ei weithredu.

Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â'r awgrym o ddefnyddio arian o'r maes parcio i dalu i'r Uned Forwrol glirio'r tywod, nodwyd nad oedd trefniant trosglwyddo arian mewn bodolaeth ond bod modd annog mwy o gydweithio rhwng adrannau. Er yn derbyn bod sgil effeithiau'r arbedion yn amlygu eu hunain erbyn hyn a bod symud tywod yn frwydr yn erbyn natur, cydnabuwyd bod angen cynllun yn ei le i ymateb i'r pryderon lleol.

Amlygodd D George bod aelodau o gwmni TMS, wrth gynnal ymweliad safle, wedi awgrymu defnydd o'u peiriannau, fydd ar y safe, i glirio tywod. Awgrymwyd y gall Clwb Hwylio Aberdyfi gyfrannu'n rhannol at unrhyw gostau, gyda chyfraniadau pellach efallai gan Gyngor Gwynedd a'r Clwb Cychod.

**PENDERFYNWYD**

**Nodi a derbyn yr adroddiadau.**

## 6. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL

Dim i'w nodi

## 7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 25ain o Hydref 2022.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:20am

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **25 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Aberdyfi.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno er sylw'r Pwyllgor ar faterion harbwr ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth 2022 i fis Hydref 2022, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Aberdyfi a Chofrestru Cychod.

2.1 Mae 72 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Aberdyfi yn 2022. Mae hyn yn cymharu â 76 o gychod ar angorfeydd yn 2021.

2.2 Bu gostyngiad bychan yn nifer y cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf yn harbwr Aberdyfi. Mae yn bosib bod rhan o'r gostyngiad yn nifer y cychod sy'n cael eu hangori yn yr harbwr i lawr i'r sefyllfa economaidd bresennol, ac yn benodol, y costau byw ar hyn o bryd.

2.3 Mae mwyafrif helaeth aelodau'r cyhoedd bellach yn cofrestru eu cychod pŵer ar-lein drwy Wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn, manteisiodd 2380 o aelodau'r cyhoedd ar y cyfle i gofrestru eu cychod pŵer ar-lein. Gan fod gwyliau dramor wedi gweld twf aruthrol eleni, yn enwedig ar ôl nifer o flynyddoedd lle'r oedd cyfyngiadau ar deithio, efallai bod hyn yn egluro rhywfaint ar pam y gwelwyd gostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

2.4 Yn ogystal â'r ffigyrau uchod, cofrestrwyd 136 o gychod pŵer ar bapur gan bobl sy'n ymweld â'r swyddfeydd morwrol amrywiol ledled Gwynedd. Hefyd, cofrestrwyd 82 cwch gydag injan o dan 10 hp.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.1.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Aberdyfi.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Aberdyfi wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor. Mae'r harbwrfeistr yn parhau i ymgymryd â'r swyddogaethau sy'n ofynnol i sicrhau gweithrediadau diogel yn yr harbwr. Caiff yr Harbwrfeistr ei gynorthwyo yn fedrus gan Gymhorthydd yr Harbwr.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi gallu galw ar staff a leolir yn harbyrau Abermaw a Phorthmadog i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Aberdyfi, pan fo angen.

4.1.1 Roedd gennym ddau warden traeth eto yr haf yma i helpu staff yr harbwr i oruchwylio rheolaeth ddiogel o'r gweithgareddau a gynhaliwyd ar ac o'r prif draeth yn Aberdyfi, gan weithio o gaban/swyddfa ger y traeth.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd y Swyddog Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn;

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Goleufeydd
- Cynnal a chadw angorfeydd Ymwelwyr
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau
- Cynnal a chadw offer a chyfarpar

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Aberdyfi, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2023/2024, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

6. **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Aberdyfi yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Hydref 2022, gan gynnwys materion cynnal a chadw.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi** |
| **DYDDIAD** | **25 Hydref 2022** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **W.A.Stockford Harbwrfeistr Aberdyfi** |

H1 **Materion Mordwyo**

1.1 Mae llwybr y brif sianel fordwyo i harbwr Aberdyfi wedi bod yn cael ei fonitro gan staff yr harbwr drwy'r tymor. Darparwyd gwybodaeth am fordwyo i forwyr ddaw i'r harbwr a phan fo angen mae staff wedi helpu cychod i lywio'r sianel drwy ddefnyddio cwch patrôl yr harbwr.

1.2 Ar hyn o bryd, mae dau Hysbysiad Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Aberdyfi.

1.2.1 **Rhif 09/22**

Gwybodaeth i Forwyr ynglŷn â Gwaith Adeiladu Cei Aberdyfi

1.2.2 **Rhif 10/22**

Bwi Bar: Rhif 1 Starboard: Fl.G.5s.
Mae'r bwi bellach yn ei le ar safle 52º 32.159'N 004º 04.772'W

1.2.3 **Rhif 11/22**

Bwi Bar: Rhif 2 Port: Fl.R.5s.
Mae'r bwi bellach yn ei le ar safle 52º 32.159'N 004º 04.772'W

1.3 Ar 5 Hydref 2022, cynhaliwyd archwiliad o'r cymhorthion mordwyo yn Aberdyfi gan Feistr y Marciau Môr o Dŷ'r Drindod. Yn dilyn yr archwiliad bydd y Gwasanaeth yn derbyn adroddiad maes o law. Hysbysir aelodau'r Pwyllgor am y canlyniad unwaith y byddwn wedi ei dderbyn.

1.4 Dymuna'r Gwasanaeth bwysleisio pwysigrwydd cysylltu â swyddfa'r harbwrfeistr yn Aberdyfi i gael gwybodaeth gyfredol am ddiogelwch mordwyo.

H2 **Materion Gweithredol**

2.1 Erbyn hyn mae gwaith wedi dechrau ar Brosiect Datblygu Cei Aberdyfi (AWDP) ac mae hyn yn achosi newidiadau mawr i weithrediadau arferol yn yr harbwr. Ar y cyd gydag adran Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd a chontractwr y prosiect, bydd y gwaith yn parhau gyda'r holl randdeiliaid, i sicrhau bod arferion gwaith diogel yn parhau yn yr harbwr.

2.2 Tra bod y mwyafrif helaeth o ymwelwyr i'r ardal yn parchu rheolau a rheoliadau amgylchedd yr harbwr, mae yn siomedig adrodd bod staff unwaith eto wedi bod yn destun camdriniaeth eiriol neu ystumiau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae gollwng ysbwriel yn ddi-esgus o gwmpas yr harbwr hefyd yn broblem, gyda staff yn gorfod treulio amser yn clirio ysbwriel, leiniau pysgota crancod ac offer cysylltiedig.

2.3 Yn gyffredinol, roedd ymddygiad y defnyddwyr dŵr yn dda iawn yn ystod yr haf prysur. Er hynny, bu'n rhaid i staff rybuddio ychydig o ddefnyddwyr cychod dŵr personol o'r angen i ddilyn is-ddeddfau'r harbwr a pharchu'r cyfyngiad cyflymder yn nyfroedd yr harbwr. Mae un digwyddiad yn ymwneud â gweithrediad cwch dŵr personol ar yr afon yn cael ei ymchwilio ar hyn o bryd gan weithwyr yr harbwr.

### H3 Cynnal a chadw

3.1 Ar ddechrau'r tymor prysur cynhaliodd staff yr harbwr waith cynnal a chadw ar gwch patrôl yr harbwr a'r ôl-gerbyd cysylltiedig. Roedd hyn yn sicrhau presenoldeb gweledol ar y dŵr gan staff yr harbwr. Mae rhagor o waith i'w wneud ar y cwch yn ystod y gaeaf i baratoi ar gyfer y tymor nesaf.

3.2 Mae staff yr harbwr wedi ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar y Cymhorthion Mordwyo drwy gydol yr haf prysur gyda chymorth contractwr lleol. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gallu cadw'r sianel fordwyo wedi ei marcio yn dda trwy gydol y tymor.

3.3 O ganol y tymor tan tua diwedd yr haf, mae staff wedi ymgymryd â gwaith o amgylch yr harbwr i baratoi ar gyfer Rhaglen Datblygu Cei Aberdyfi. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu gydag adrannau eraill o Gyngor Gwynedd i sicrhau bod y safle wedi ei baratoi i ganiatáu i waith ddechrau.

3.4 Mae carcasau ar y blaendraeth wedi arwain i sawl diwrnod o waith ymatebol gan y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn gofyn os ydych yn gweld unrhyw gyrff anifeiliaid i chi roi gwybod i'r gwasanaeth cyn gynted â phosib.

### H4 Materion Eraill

4.1 **Bryn Llestair** Mae'r prosiect i amnewid y bont droed bresennol dros Reilffordd Arfordir y Cambrian yn parhau. Yn dilyn gwaith paratoi helaeth, mae'r bont erbyn hyn wrthi'n cael ei chynhyrchu. Yn amodol i unrhyw oedi na ragwelwyd, y bwriad yw gosod y bont yn ei lle yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 14 Tachwedd eleni.

4.2 **Lloc yr harbwr:** Mae lloc yr harbwr yn parhau i fod yn destun adolygiad. Hyderir y byddwn yn hwyluso cyflenwad pŵer a dŵr i'r lloc, fydd yn helpu pysgotwyr masnachol sy'n gweithio o'r harbwr i lanhau a storio offer ar y safle.

### H5 Digwyddiadau

5.1 Yn ôl yr arfer cynhaliwyd tymor hwylio prysur gan Glwb Hwylio Dyfi gan gynnwys Pencampwriaethau GP14 Cenedlaethol Cymru ddechrau mis Mai.

5.2 Cynhaliwyd pasiant afon llwyddiannus ond gwyntog i ddathlu Jiwbili Platinwm y ddiweddar Frenhines Elizabeth II.

5.2 Carai'r Gwasanaeth atgoffa unrhyw drefnwyr o'r angen i gyd-gysylltu gyda'r Gwasanaeth ar y cyfle cyntaf posib os ydynt eisiau cynnal unrhyw ddigwyddiad a bod yn rhaid cael cadarnhad a chaniatâd cyn i unrhyw ddigwyddiadau fynd rhagddynt.

# CYNGOR GWYNEDD.

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR [ ]

**1. Enw**

Gelwir y Pwyllgor yn Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr [ ].

**2. Statws**

2.1 Sefydlir y Pwyllgor dan erthygl 6 Gorchymyn Adolygu Harbwr Porthmadog 1998
*neu*
Sefydlir y Pwyllgor dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

2.2 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i Gabinet y Cyngor. (Gan y Cabinet mae'r swyddogaeth a'r cyfrifoldeb o weithredu fel awdurdod harbwr).

**3. Aelodaeth.**

3.1 Aelodaeth y Pwyllgor fydd:

- Hyd at bedwar aelod lleol o Gyngor Gwynedd.
- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n dal portffolio awdurdod harbwr.
- Un aelod o Gyngor Tref [ ]
- Hyd at saith aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr.

3.2 Cabinet y Cyngor fydd yn penodi aelodau'r Pwyllgor a hynny yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor a defnyddwyr yr harbwr.

3.3 Tymor aelodaeth aelodau'r Pwyllgor fydd:

- tan ddyddiad nesaf etholiad llywodraeth leol arferol
- tan y bydd yr aelod yn ymddiswyddo o'r Pwyllgor
- tan y bydd yr aelod yn peidio â bod yn gynghorydd neu'n peidio â chynrychioli'r buddiant y cafodd ei benodi i'r Pwyllgor i'w chynrychioli
- tan y bydd y Cabinet yn penodi aelod arall yn ei (l)le)
  (pa un bynnag fo fyrraf).

**4. Cadeirydd ac Is-gadeirydd.**

4.1 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor, bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i gadeirio ei gyfarfodydd.

4.2 Yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod blynyddol y Cyngor bydd y Pwyllgor yn ethol Is-gadeirydd o blith ei aelodau sy'n gynghorwyr sir i weithredu yn absenoldeb y Cadeirydd.

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

**5. Cworwm a Phleidleisio.**

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

**6. Amlder Cyfarfodydd.**

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

**7. Cylch Gorchwyl.**

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

**8. Trefn y cyfarfodydd.**

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.

# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| | | | | | 2022 | | | | | | | | | | | | 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Mesurydd | 2020/21 | 2021/22 | Uchelgais 2022/23 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Sylwadau /Rheswm dros y perfformiad |
| M1 | **Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd marinas ac angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd.** | | | | **759** | **759** | **759** | **767** | **767** | **767** | **767** | **767** | | | | | | | | Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriad i barhau i angori yng Ngwynedd. Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn yn Hafan. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor ac o bosib effaith Brexit. |
| | Nifer cwsmeriaid Hafan Pwllheli | | | | 378 | 378 | 378 | 406 | 406 | 406 | 406 | 406 | | | | | | | | Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor. |
| | Nifer cwsmeriaid Doc Fictoria | | | | 89 | 89 | 89 | 94 | 94 | 94 | 94 | 94 | | | | | | | | Marina yn llawn gyda rhestr aros. |
| | Nifer cwsmeriaid Harbwr Pwllheli | | | | 50 | 50 | 50 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | | | | | | | | Nifer cychod ar angorfa yn yr harbwr allanol wedi aros yn gyson yn unol a'r disgwyl. Plas heli yn cynnig angorfeydd wedi cael effaith ar niferoedd yn yr harbwr allanol. |
| | Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | | | | 76 | 76 | 76 | 72 | 72 | 72 | 72 | 72 | | | | | | | | Nifer Cychod Pŵer wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio dyddiol |
| | Nifer cwsmeriaid Abermaw | | | | 54 | 54 | 54 | 57 | 64 | 64 | 64 | 64 | | | | | | | | |
| | Nifer cwsmeriaid Porthmadog | | | | 112 | 112 | 112 | 100 | 104 | 104 | 104 | 104 | | | | | | | | Nifer gwsmeriaid wedi goswng. Dim rheswm penodol ond rhai wedi cymryd angorfa yn Hafan. |


## Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M2 | **Boddhad Cwsmer Harbyrau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | *Yn 2021/22, cafodd y sylw ei rhoi yn seiliedig ar holiadur a gylchredwyd yn Gaeaf 2021. Bwriedir cynal yr un ymgynghoriad gyda Doc Fictoria a Hafan yn gaeaf 2022. Nid oes holiadur wedi ei sefydlu ar gyfer harbyrau eraill hyd yma.* |
| | **<u>Hafan Pwllheli</u>** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Hafan Pwllheli - 2021/22<br><br>Nifer gwsmeriaid Angorfa Blynyddol = 378<br><br>1.Anfodlon 2.12% - Nifer Cwsmer = 8<br>2.Bodlon – 10.59% - Nifer Cwsmer = 40<br>3.Gweddol bodlon - 25.42% - Nifer Cwsmer = 97<br>4.Bodlon iawn - 61.86% - Nifer Cwsmer = 233<br>Holiadur yn seiliedig ar drefn 2021 ble caiff yr holiadur ei anfon drwy drefniant gyda'r PMBHA |
| | Bodlon Iawn | | | | 61.86% | 61.86% | 61.86% | | | | | | | | | | | | | |
| | Bodlon | | | | 10.59% | 10.59% | 10.59% | | | | | | | | | | | | | |
| | Gweddol Fodlon | | | | 25.42% | 25.42% | 25.42% | | | | | | | | | | | | | |
| | Anfodlon | | | | 2.12% | 2.12% | 2.12% | | | | | | | | | | | | | |
| | ***Cyfanswm Bodlon Iawn, Bodlon & Gweddol Fodlon*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **<u>Doc Fictoria</u>** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Doc Fictoria<br>Nifer gwsmeriaid Angorfa Blynyddol = 90<br><br>1.Anfodlon – 5.6% - Nifer Cwsmer = 5<br>2.Bodlon – 30.2% - Nifer Cwsmer = 27<br>3.Gweddol bodlon – 47.2% - Nifer Cwsmer = 42<br>4.Bodlon iawn – 17.0% - Nifer Cwsmer =<br>16Holiadur yn seiliedig ar drefn 2021 ble caiff yr holiadur ei anfon drwy drefniant gyda'r DFBHA |
| | Bodlon Iawn | | | | 17.00% | 17.00% | 17.00% | | | | | | | | | | | | | |
| | Bodlon | | | | 47.20% | 47.20% | 47.20% | | | | | | | | | | | | | |
| | Gweddol Fodlon | | | | 30.20% | 30.20% | 30.20% | | | | | | | | | | | | | |
| | Anfodlon | | | | 5.60% | 5.60% | 5.60% | | | | | | | | | | | | | |
| | ***Cyfamser Bodlon Iawn, Bodlon a Gweddol Fodlon*** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| | | | | | 2022 | | | | | | | | | | | | 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfeirnod | Mesurydd | 2020/21 | 2021/22 | Uchelgais 2022/23 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Sylwadau /Rheswm dros y perfformiad |
| M3 | Nifer Gychod Pwer / Badau Dŵr Personol wedi eu trwyddedu. Gwybodaeth er cadarnhau fod yna sutem cofrestru penodol ar gyfer adnabod pob cwch pwer neu Fâd Dŵr Personol sydd yn lansio yng Ngwynedd. | | | | 2,434 | 2,434 | 2,434 | 2,380 | 2,380 | 2,380 | 2,380 | 2,380 | | | | | | | | Lleihad yn y nifer a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth a 2021. Hyn ddim yn anisgwyl oherwydd teithio tramor wedi eil gychwyn. Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd cychod wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob cwch ar arfordi gwyedd yn arddangos Hawlen Cofrestru. Yn 2022 roedd angen i pob cwsmer gofrestru ar lein ond mae rhai cwsmeriad ddim gyda gallu i wneud hyn ac fe fu i cyfanswm 136 gofrestru ar ddull ffurflen papur ar y safle. Cofrestrwyd 82 cwch gyda peiriant llai na 10Hp ac nid yw y rhain wedi ei cynnwys yn y ffigwr. |
| M4 | Graddfa adennill Gwasanaeth Morwrol. Dangosyd yn cyflwyno gwybodaeth ar 'werth am arian' drwy gymharu lefel incwm gyda lefel gwariant. | | | | | | | | | | | | | | | | | | | (£5,163) DG53 £475 DG54 (£416) DG55 (£6,525) DG60 (£7,021) DG63 (£10,926) Cyfanswm 2021/22 yn well na gwariant = £221,159. Canran Graddfa Adennill yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan yr Uned Cyllid. Byddai Monitro Chwarterol yn gallu dangos os ydym ar trac. |
| M5 | Canran Cymothyddion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac ar arfordir Cyngor Gwynedd yn cael eu rheoli a gwasanaethu yn unol a gofynion Ty'r Drindod. Canran Rhybuddion i Forwyr yn cael eu cyhoeddi o fewn 24 awr i gymhorthydd morwdwyo dod oddi ar ei safle priodol neu fod diffyg yn y cymhorthydd mordwyo. | | | | 100% | 100% | 100% | 100% | 95% | 100% | 100% | 100% | | | | | | | | Hyd yma rydym ar trac. Archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi ei cwblhau mis Medi 2021. Cydymffurfiaeth a Cod Diogelwch Porthladdoedd sydd cael ei archwilio gan Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA.) Bydd archwiliad Tŷ'r Drindod nesaf ym mis Hydref 2022. |

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





**Sylwadau:** Cynydd sylweddol mewn nifer a chytundeb blwyddyn. Hyn yn anisgwyl ac yn galonogol. Bosib effaith C-19 gan bod lleihad mewn nifer bobl teithio dramor.


** Morwrol i gynorthwyo gyda creu graff Bodlonrwydd Cwsmer pan fydd y data

**Sylwadau:** Yn 2021/22, cafodd y sylw ei rhoi yn seliedig ar holiadur a gylchredwyd yn Gaeaf 2021. Bwriedir cynal yr un ymgynghoriad gyda Doc Fictoria a Hafan yn gaeaf 2022. Nid oes holiadur wedi ei sefyldu ar gyfer harbyrau eraill hyd yma.

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned





**Sylwadau:** Lleihad yn y nifer a fu wedi cofrestru mewn cymhariaeth a 2021. Hyn ddim yn anisgwyl oherwydd teithio tramor wedi eil gychwyn. Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd cychod wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob cwch ar arfordi gwyedd yn arddangos Hawlen Cofrestru. Yn 2022 roedd angen i pob cwsmer gofrestru ar lein ond mae rhai cwsmeriad ddim gyda gallu i wneud hyn ac fe fu i




**Sylwadau:** 2021/22-DG01 (£8,345) DG50 £50,461. DG51 (£233,654) DG52 (£5,163) DG53 £475 DG54 (£416) DG55 (£6,525) DG60 (£7,021) DG63 (£10,926) Cyfanswm 2021/22 yn well na gwariant = £221,159. Canran Graddfa Adennill yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan yr Uned Cyllid. Byddai Monitro Chwarterol yn gallu dangos os ydym ar trac.


# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned




| | |
|---|---|
| **Sylwadau** | Hyd yma rydym ar trac. Archwiliadau Tŷ'r Drindod wedi ei cwblhau mis Medi 2021. Cydymffurfiaeth a Cod Diogelwch Porthladdoedd sydd cael ei archwilio gan Asiantaeth gwylwyr y Glannau (MCA.) Bydd archwiliad Tŷ'r Drindod nesaf ym mis Hydref 2022. |

**Harbwr**

| DG55 - HARBWR ABERDYFI | | 01/04/2022 hyd at 31/03/2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT HYD AT 31/03/2023 | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 63,300 | 83,528 | 20,228 |
| | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 21,180 | 2,166 | (19,014) |
| | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 690 | 3,576 | 2,886 |
| | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 7,520 | 2,028 | (5,492) |
| | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (29,500) | (36,936) | (7,436) |
| | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | 63,190 | 54,362 | (8,828) |




| | | |
|---|---|---|
| Outer Buoy | Lat 52° 32.000'N | Long 004° 05.550'W |
| Bar Buoy No1 | Lat 52° 32.159'N | Long 004° 04.772'W |
| Bar Buoy No2 | Lat 52° 32.192'N | Long 004° 04.778'W |
| No3 South Spit | Lat 52° 32.195'N | Long 004° 04.491'W |
| No5 | Lat 52° 32.198'N | Long 004° 04.053'W |
| No7 | Lat 52° 32.256'N | Long 004° 03.408'W |
| YSM 4 Knots | Lat 52° 32.469'N | Long 004° 02.861'W |